# ATODIAD A

# ADNODDAU AR GYFER DAWNS

## Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn cyllido'r broses o greu a chyflwyno dawns drwy ei bortffolio o sefydliadau a gaiff eu hariannu drwy refeniw a grantiau prosiect. Ar hyn o bryd, mae dawns yn cael 6 y cant o gyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y celfyddydau.

Mae'r cyllid sydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y sector dawns yn cynnwys:

- dau gwmni dawns proffesiynol sy'n teithio a gaiff eu hariannu gan refeniw (Diversions ac Earthfall)
- tri chorff dawns Ymbarél a gaiff eu hariannu gan refeniw sy'n seiliedig ar aelodaeth (Dawns Gymuned Cymru, Dawns Annibynnol Cymru a Chymdeithas Ddawns Werin Cymru)
- saith sefydliad dawns cymunedol a gaiff eu hariannu gan refeniw.

Fel y dengys tabl 1, cyfanswm y cyllid refeniw yn 2004/05 ar gyfer y cleientiaid CCC hyn oedd £1,102,016.

**Tabl 1:**
**Cyllid a ddyrannwyd i gleientiaid refeniw dawns Cyngor Celfyddydau Cymru**

| | £ |
|---|---:|
| **Dawns Gymunedol (Cyfanswm)** | **363,708** |
| Dawns Dyfed | 49,140 |
| Dawns Powys | 58,428 |
| Dawns TAN Cyf. | 56,648 |
| Dawns Gogledd-ddwyrain Cymru Cyf | 49,140 |
| Dawns i Bawb | 43,899 |
| Rubicon Dance | 69,386 |
| Dance Blast | 37,067 |
| **Cwmni Cynhyrchu (Cyfanswm)** | **597,811** |
| Cwmni Dawns Diversions Cyf | 461,044 |
| Dawns Earthfall Cyf. | 136,767 |

| | £ |
|---|---:|
| **Cyrff Ymbarél (Cyfanswm)** | **140,497** |
| Cymdeithas Ddawns Werin Cymru | 7,120 |
| Dawns Annibynnol Cymru | 75,339 |
| Dawns Gymuned Cymru | 58,038 |
| **Cyfanswm** | **1,102,016** |

Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru

Galluogodd y cyllid uchod ar gyfer 2004-05 i'r sefydliadau hyn gyflogi 171 o bobl (gan gyflogi 39 ohonynt yn amser llawn) a chyflwyno 300 o brosiectau a oedd yn cynnwys 115,129 o gyfranogwyr ledled Cymru, a chynhyrchu cynulleidfa ddawns genedlaethol o 90,000 mewn lleoliadau a ariennir gan CCC ledled Cymru.

Yn 2004/05 cynigiwyd cymorth ychwanegol drwy gyllid Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd (dros £35,000 fel y gwelir yn Nhabl 2). Mae hyn o fudd i gwnïau dawns yng Nghymru a'r lleoliadau allweddol sy'n ymrwymedig i ddatblygu dawns yn eu rhaglenni.

**Tabl 2:**
**Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer cynlluniau a phrosiectau sy'n gysylltiedig â dawns**

| | £ |
|---|---:|
| **Cynlluniau a phrosiectau dawns (Cyfanswm)** | **636,507** |
| Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd | 35,317 |
| Y gronfa Meithrin Gallu a Datblygu | 40,000 |
| Cyfalaf (y Loteri) | 22,096 |
| Plant, Pobl Ifanc a'r Celfyddydau | 13,550 |
| Dyfarniadau Cymru Greadigol | 47,900 |
| Cynllun Awdurdodau Lleol | 41,878 |
| Cyllid Uniongyrchol y Cynulliad Cenedlaethol | 24,000 |
| Datblygu Cynulleidfaoedd a Chyflwyniadau | 65,453 |
| Hyfforddiant Datblygu Proffesiynol | 12,076 |
| Grantiau Bach | 45,323 |
| Grantiau Bach: Hyfforddiant | 26,623 |
| Cynllun Cynaliadwyedd | 15,830 |
| Cymryd Rhan a'r Celfyddydau yn y Gymuned | 116,200 |
| Presenoldeb yng Nghanolfan Mileniwm Cymru | 130,261 |

Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r sector dawns hefyd yn cael arian y loteri. Dyma rai enghreifftiau o grantiau'r loteri a ddyfarnwyd yn 2004/05:

- Cwmni dawns Carlson - £20,060 o gymorth ar gyfer Rheolwr Marchnata a Theithiau,
- Dawns Gymuned Cymru - £20,000 ar gyfer parhau â'r Prosiect Cydgysylltydd Dawns y Cymoedd hynod lwyddiannus,
- Bale Annibynnol Cymru - £20,700 i ddarparu Gweithdai Dawns Cymunedol o amgylch Casnewydd yn 2005,
- India Dance Wales - £20,000 o'r Gronfa Meithrin Gallu a Datblygu,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - £33,628 i ddatblygu "Migrations", Prosiect Dawns Cyfoes Rhyngwladol i'w ail flwyddyn, sydd o fudd i Ogledd-orllewin Cymru
- Jem Treays - £20,000 ar gyfer "Transducer and Is This It", sy'n teithio ledled Cymru.

## Grantiau ar gyfer hyfforddiant mewn dawns

Rhai o'r grantiau eraill sydd ar gael ar gyfer prosiectau/hyfforddiant dawns yw:

### Dyfarniadau Dawns a Drama (DU)

Cyflwynwyd y Dyfarniadau Dawns a Drama i roi ysgoloriaethau i'r myfyrwyr dawns a drama mwyaf talentog yn y DU. Cynigir y dyfarniadau yn flynyddol i fyfyrwyr gan eu darparwr ar sail y ddawn a ddangosir yn y cyfweliad. Roedd 525 o ddyfarniadau ar gael yn 2004 i'r myfyrwyr a ymunodd â'r 22 o ddarparwyr preifat a oedd yn cymryd rhan. Mae'r dyfarniadau'n cynnig gostyngiad mawr yn y ffïoedd dysgu ac yn helpu gyda chostau byw a dysgu a chostau gofal plant cofrestredig o hyd at £5,125 ar gyfer pob plentyn. Nid oes unrhyw ddarparwyr yng Nghymru, ond mae'r cynllun ar agor i holl drigolion y DU. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ar y cyrsiau dawns fod yn hŷn nag 16 oed. Ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth am nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus o Gymru.

### Cynllun Cerddoriaeth a Dawns (Yr Adran Addysg a Sgiliau)

Mae Cynllun Cerddoriaeth a Dawns (y Cynllun Cerddoriaeth a Bale yn flaenorol) yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer bechgyn a merched sydd â dawn o'r safon uchaf ym maes cerddoriaeth a dawns. Mae'r cynllun yn

helpu rhieni i dalu'r ffïoedd a'r costau preswyl mewn wyth ysgol annibynnol arbenigol sy'n ganolfannau rhagoriaeth yn eu maes. Yr oedran ar gyfer dechrau yn y pedair ysgol ddawns fel arfer yw 11 oed. Mae'r cyfraniad at ffïoedd yn dibynnu ar incwm y teulu. Mae pob un o'r wyth ysgol wedi'u lleoli yn Lloegr er bod yna un tebyg yn yr Alban.

Ym mis Mawrth 2004, cyhoeddwyd cynllun grantiau cenedlaethol newydd. Mae hwn ar gyfer plant sy'n arbennig o dalentog a fydd yn caniatáu iddynt gael hyfforddiant dibreswyl arbenigol. Y nod yw sicrhau bod mwy o hyfforddiant arbenigol ar gael yn lleol, er bod angen nodi eto bod yr holl ganolfannau hyfforddiant dibreswyl wedi'u lleoli yn Lloegr.
Cafodd y cynllun ei dreialu o fis Medi 2004 a'i ehangu i ddwy ganolfan ychwanegol ym mis Medi 2005.

Mae'r grantiau newydd ar gyfer cerddorion ifanc 8 i 16 oed a dawnswyr ifanc 11 i 16 oed sy'n dangos ymroddiad a photensial arbennig, ac nad oes ganddynt yr arian i gael yr hyfforddiant gorau sydd ar gael. Defnyddiwyd prawf modd ar gyfer y grantiau a'r swm llawn yw £3,000 y flwyddyn.

### Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r Cyngor Celfyddydau yn cynnig Grantiau Hyfforddiant Proffesiynol a all roi hyd at uchafswm o £2,000 am bob grant bob blwydyn. Nod y cynllun yw:

- Rhoi cymorth o ran hyfforddiant artistig, creadigol, technegol, busnes, marchnata a rheoli yn y celfyddydau yng Nghymru;
- Cefnogi unigolion neu sefydliadau sydd am dderbyn hyfforddiant neu gomisiynu hyfforddiant yng Nghymru, y DU neu dramor.

Ar gyfer unigolion neu sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant, gall y cynllun dalu am gostau (ac eithrio costau ar gyfer addysg statudol) fel cyflogau, ffïoedd hyfforddwyr, deunydd hyfforddi, costau cyfieithu, marchnata, cludiant, achredu, llogi lleoliadau ac offer. Ar gyfer unigolion neu sefydliadau sy'n cael eu hyfforddi, gall y cynllun dalu am gostau fel ffïoedd hyfforddi, ffïoedd cynadleddau, teithio a llety.

Nid yw'r cynllun yn cefnogi ceisiadau i fynychu cyrsiau amser llawn mewn sefydliadau addysg uwch nac addysg bellach, na cheisiadau i dalu am hyfforddiant na gwersi unigol. Mae'n rhaid i unigolion cymwys fod yn

16 oed neu'n hŷn ac ni ddylent fod mewn addysg amser llawn pan fydd yr hyfforddiant yn dechrau.

### Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC) a Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru

Drwy ei raglen nawdd, mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC) yn ceisio datblygu partneriaethau â chwmnïau sydd am fuddsoddi yn y canlynol:

- y cais am ragoriaeth
- cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc
- menter genedlaethol, sydd â dimensiynau lleol
- celfyddydau a diwylliant Cymru.

### Awdurdodau Lleol

Efallai fod gan Gynghorau yng Nghymru ffrydiau ariannu i gefnogi gweithgarwch cymunedol er eu bod yn aml yn gysylltiedig ag adfywio. Yn ogystal, mae Cynghorau yn aelodau o bartneriaethau cyllid Ewropeaidd, sy'n bartneriaethau cynrychiolwyr y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid Ewropeaidd o fewn ardal yr awdurdod.

### Mae ffynonellau eraill yn cynnwys:

- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, sydd unwaith eto'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau gwahanol, ac mae cyllid cynllun Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad ar gael iddynt
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop
- Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa)
- Sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol
- Nawdd preifat.

## Lloegr

Amcangyfrifir bod yr economi dawns yn cyflogi tua 30,000 o bobl a bod tua 200 o gwmnïau dawns yn y DU.[1]

---

[1] Ffeithiau ynglŷn â Dance UK http://www.danceuk.org/facts/

Mae gan y DU hefyd rwydwaith datblygedig iawn o gymorth strategol a sefydliadau datblygu ar gyfer dawns. Maent yn cynnwys:

- Dance UK
- The Foundation for Community Dance
- The Place Dance Services
- Association of Dance of the African Diaspora (ADAD)
- The South Asian Dance Consortium
- Equity
- The Independent Theatre Council
- The Society of London Theatre
- The Theatrical Management Association
- The Network of National Dance Agencies.

Amlinellwyd polisi triphlyg presennol Llywodraeth y DU ar ddawns gan y Gweinidog dros y Celfyddydau ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Estelle Morris yn ei thystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin i ddawns gyda'r datganiadau canlynol:

- Sicrhau rhagoriaeth
- Sicrhau bod dawns ar gael i bawb
- Sicrhau cyfraniad mwyaf posibl dawns at fyw'n iach.

Rhai o faterion allweddol y sector dawns a nodwyd yn ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin i ddawns (mis Ebrill 2005) oedd:

- Mae nawdd yn ffynhonnell ariannu bosibl ar gyfer dawns nad yw'r sector wedi'i hystyried hyd yn hyn. Mae'n rhaid i'r sector leihau ei ddibyniaeth ar y pwrs cyhoeddus.
- Byddai hyfforddiant gwell i athrawon a mwy o ddefnydd o athrawon arbenigol yn gwella'r profiad o ddawns mewn ysgolion.
- Mae yna densiwn yn y sector o ran a yw dawns yn fath o gelfyddyd neu'n weithgaredd corfforol. Mae goblygiadau ariannol i hyn.

- Dylai'r Llywodraeth gydbwyso'r angen i annog cyfranogiad gyda'r angen i sicrhau y caiff rhagoriaeth ei haddysgu.
- Gall amodau gwaith amrywio'n helaeth a gall effeithio ar yr artist a'r perfformiad.
- Mae yna ddiwylliant o gyflog isel yn y sector, ac mae angen mynd i'r afael â hyn.
- Dylid cynnwys lle ar gyfer diwylliant yn ystod cyfnod cynllunio setliadau newydd.

Ym mis Medi 2004, cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Addysg a Sgiliau ymateb manwl ar y cyd i'r ymchwiliad a oedd yn cynnwys 38 o argymhellion.

Mae Llywodraeth y DU yn dibynnu ar Gyngor Celfyddydau Lloegr i fodloni'r amcanion o ddatblygu rhagoriaeth ac annog arloesedd mewn dawns. Yn 2004-05 dyfarnodd Cyngor Celfyddydau Lloegr 354 o grantiau Celfyddydau ar gyfer dawns a oedd yn dod at gyfanswm o £7,339,650.

Yn ogystal â'r grantiau celfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, dyfarnwyd £4,250,000 o arian y Loteri Genedlaethol fel grantiau i gynorthwyo dawns yn 2004-05.

Mae ffynonellau cyllid eraill gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chan yr Adran dros Addysg a Sgiliau yn cynnwys:

- Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn ogystal ag ariannu Cyngor Celfyddydau Lloegr, yn ariannu (a) y cynlluniau Grantiau ar gyfer y Cynllun Celfyddydau a (b) y cynllun Partneriaethau Creadigol.
- Mae'r Adran dros Addysg a Sgiliau yn noddi nifer o gynlluniau (a) Cynllun Cerddoriaeth a Dawns yr Adran dros Addysg a Sgiliau a (b) Dyfarniadau Dawns a Drama.
- Mae'r ddwy Adran yn gweithio gyda'i gilydd i ariannu rhaglenni fel:
  - Strategaeth Physical Education, School Sports and Club Links (PESSCL)
  - Space for Sport and Arts
  - Y rhaglen New Opportunities for PE and Sport
  - The Music and Dance scheme (with ACE) fund Youth Dance England.

## BLAENORIAETHAU O RAN CYLLID YN Y DYFODOL - CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU MIS GORFFENNAF 2005

Cyflwynwyd yr amcangyfrifon canlynol i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2005

**Diversions:** ar gyfer cynllun prentisiaeth, 1 Taith Genedlaethol, Alternative Routes, pedwar dawnsiwr ychwanegol, rhaglennu Tŷ Dawns a chomisiynu Artistiaid Cysylltiol - £220,000

**Earthfall:** i ddarparu canolfan, stiwdio a swyddfa; cynnydd o ran y gyllideb cynhyrchu, teithiau ychwanegol ar raddfa fwy a swyddog addysg penodol - £120,000

**Bale Annibynnol Cymru:** ar gyfer lle i ymarfer, swyddfa, cyfleusterau storio a chynhyrchu, 1 taith flynyddol - £80,000

**India Dance Wales:** ar gyfer arian refeniw, swyddfa, lle i ymarfer a gweinyddwr - £60,000

**Cwmni Dawns Carlson:** ar gyfer costau cynhyrchu a thaith flynyddol - £40,000

**Dawns Annibynnol Cymru:** i gydgrynhoi ei chylch gorchwyl, 1 swyddog datblygu wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru a chomisiynu cyfleusterau - £40,000

**Artistiaid Dawns Annibynnol:** ar gyfer artistiaid perfformio/dawns â chydnabyddiaeth ryngwladol e.e. M:esa, Mark trees, Eddie Ladd, Sean Tuan John - £100,000

**Dawns Gymuned Cymru:** i ddarparu canolfan newydd a swydd ddatblygu yng Ngogledd Cymru, Arweinwyr ym maes Dawns/Steps in Time, Dawns y Cymoedd a sefydlu cangen addysg - £130,000

**Saith Sefydliad Dawns Cymunedol penodol**, £40,000 i ddiweddaru pob un - £280,000

**Sefydliadau eraill sy'n cyflwyno dawns gymunedol** ee Rhondda Cynon Taf, y Cymoedd a'r Fro - £40,000

**Hyfforddiant a datblygu:** cyllideb hyfforddiant a datblygu hael i alluogi ymarferwyr dawns profiadol, dawnswyr proffesiynol a hyrwyddwyr i gael y cyfle i "fynd i weld", a datblygu siliau ar gyfer datblygiadau newydd, cyffrous a heriol ac i ddelio â rhai o'r grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd - £50,000

**Cynlluniau Prentisiaeth:** tua 5 prentis y flwyddyn ledled Cymru, gyda chyflog o £8,000 a chostau - £50,000

**Ffïoedd ar gyfer dawnswyr annibynnol:** cynnyddu ffïoedd, yn seiliedig ar 40 o ddawnswyr annibynnol ledled Cymru, gyda chynnydd o £2,500 y flwyddyn - £100,000

**Cymhorthdal ar gyfer tocynnau cyfradd arbennig:** i alluogi myfyrwyr/pobl ifanc i fynychu perfformiadau dawns yng Nghanolfan Mileniwm Cymru - £10,000

**Grwpiau dawns ieuenctid blaenllaw:** ee mae angen cyllidebau newydd ar gyfer y grwpiau dawns 'Dynion' a 'Nubrico' i ddenu arweinwyr newydd i ysbrydoli eu gwaith a chreu mwy o gyfleoedd - £30,000

**CYFANSWM : £1,350,000 y flwyddyn**

# ATODIAD B

## DAWNS GYMUNEDOL

Mae yna saith sefydliad dawns ymroddedig yng Nghymru a thri sefydliad celfyddydau cymunedol sy'n cynnig gweithgareddau dawns fel rhan allweddol o'u gwaith. Mae'r rhain yn cael cyllid refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) (gweler Atodiad A) yn ogystal â rhywfaint o gymorth gan Awdurdodau Lleol.

Y sefydliad dawns cymunedol hynaf yw dawns Rubicon, sydd wedi'i leoli yn Adamsdown yng Nghaerdydd, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 30 oed a hwn oedd y cwmni dawns cymunedol ymroddedig cyntaf ym Mhrydain Fawr. Mae dawns Rubicon hefyd yn cynnal cwrs hyfforddi dawns rhagarweiniol amser llawn am flwyddyn i helpu i fynd i'r afael â'r prinder o arweinwyr dawns cymunedol a grŵp Dawns Ieuenctid Nubrico.

Y sefydliadau dawns cymunedol eraill yw:

Dawns Dyfed

Dawns Powys

Dawns TAN Cyf.

Dawns Gogledd-ddwyrain Cymru Cyf.

Dawns i Bawb

Dance Blast.

Mae'r saith cwmni hyn yn creu rhwydwaith cadarn. Fodd bynnag, mae bylchau daearyddol yn bodoli o hyd; nid oes gan Merthyr Tudful, er enghraifft, sefydliad sy'n cwmpasu'r ardal honno i ddechrau; nid oes gan Bro Morgannwg sefydliad dawns. Mae sefydliadau eraill, fel Dawns i Bawb yng Ngogledd-orllewin Cymru, yn brin iawn ledled Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy.

Y sefydliadau celfyddydau cymunedol sy'n cynnig dawns fel rhan allweddol o'u gwaith ac sy'n cael cyllid refeniw CCC yw: Prosiect Dawns Caerffili, Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf a'r Cymoedd a'r Fro.

Mae yna hefyd rai theatrau a lleoliadau celfyddydau sy'n cynnig darpariaeth ddawns gymunedol, er enghraifft Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, yn ogystal â'r amryw o ymarferwyr dawns ac athrawon dawns cymunedol annibynnol.

Yn ogystal, mae'r cwmnïau dawns perfformio hefyd yn blaenoriaethu gwaith allgymorth ym maes addysg fel rhan o'u rhaglen, yn arbennig Dawns Diversions, Carlson, India Dance Wales a Bale Annibynnol Cymru.

Mae Dawns Gymuned Cymru, y corff ymbarél cenedlaethol, hefyd yn cael cyllid refeniw gan CCC ac ar hyn o bryd mae ganddo 130 o aelodau.

Ei nod yw:

- arwain y ffordd o ran datblygu dawns gymunedol ac arfer da yng Nghymru
- hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithgareddau dawns cymunedol ledled Cymru
- siarad o blaid cydnabod dawns gymunedol a chynyddu'r cymorth ar gyfer dawns gymunedol ledled Cymru.

### Cyfranogiad

Mae'r lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau dawns cymunedol yn uchel iawn. Er enghraifft, deng mlynedd yn ôl ym 1993-94 y ffigurau presenoldeb ar gyfer cwmni dawns Rubicon oedd 19,600, a deng mlynedd yn ddiweddarach yn 2003-04 y ffigurau oedd 71,637. Yn ogystal, mae gan Rubicon, fel grwpiau dawns cymunedol eraill, restrau aros o grwpiau ac unigolion sydd am gymryd rhan mewn dosbarthiadau dawns.

### Hyfforddiant

Un o'r ffactorau sy'n atal y grwpiau dawns cymunedol rhag ehangu yw prinder arweinwyr dawns cymunedol. Mewn ymateb i'r prinder hwn,

- Mae Dawns Gymuned Cymru ar hyn o bryd yn cynnal cwrs Arweinwyr Dawns (Ieuenctid) i arweinwyr
- Mae dawns Powys yn cynnig Cwrs Arweinwyr ym maes Dawns Gymunedol Gild Laban ac mae cynlluniau wrth law i ehangu cwrs Gild

Laban yng Nghymoedd De Cymru gyda Chelfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf (RCTCA) o fis Ionawr 2007

- Mae Rubicon yn cynnal cyrsiau a phrentisiaethau arweinyddiaeth un flwyddyn
- Mae cwrs gradd UWIC mewn dawns yn helpu i wella sgiliau Dawnswyr Cymunedol
- Mae'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion wedi defnyddio partneriaethau ag ysgolion yn Abertyleri a Merthyr Tudful i greu cyfleoedd i bobl gymryd rhan a hyfforddiant ym maes arweinyddiaeth.

Yn fwy cyffredinol, Hyfforddiant Celfyddydau Cymru yw asiantaeth datblygu gweithlu'r celfyddydau yng Nghymru ac fel sefydliad annibynnol gall roi cyngor a chymorth i unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y maes celfyddydau yng Nghymru.

### Darpariaeth Gymraeg

Dim ond nifer fach o ymarferwyr dawns dwyieithog sydd ar gael yng Nghymru.

Rhoddodd Dawns Powys dystiolaeth i'r Pwyllgor gan ddweud eu bod hwy, fel eraill, yn teimlo'n gryf iawn bod darparu a datblygu rhaglenni dawns drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn hanfodol i ddiwylliant sir ddwyieithog. Dywedwyd hefyd bod angen datblygu strategaeth sy'n anelu'n benodol at newid yr anghydbwysedd hwn.

# ATODIAD C

# DAWNS YM MAES ADDYSG A HYFFORDDIANT

## Dawns a'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae dawns yn rhan statudol o'r cwricwlwm yng Nghymru yn ystod Cyfnod Allweddol 1 a 2 lle y mae'n rhan o faes pwnc Addysg Gorfforol. Yn ystod Cam Allweddol 2, ceir chwe maes gweithgarwch o fewn y maes pwnc Addysg Gorfforol ac o'r rhain, dylid addysgu'r canlynol i ddisgyblion: gemau; gymnasteg; dawns; nofio a naill ai athletau neu weithgareddau yn yr awyr agored neu weithgareddau antur.

Mae Addysg Gorfforol yn parhau i fod yn bwnc gorfodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ystod Cyfnod Allweddol 3 a 4; fodd bynnag, daw dawns ei hun yn bwnc dewisol.

Mewn gwersi Addysg Gorfforol, caiff disgyblion eu haddysgu sut i chwarae gemau, ac o leiaf un gweithgaredd o (a) gweithgareddau gymnasteg a dawns, (b) nofio, gweithgareddau athletig a gweithgareddau antur yn yr awyr agored.

## Cyfranogiad

Mae arolygon cyfranogiad ysgolion diweddaraf Cyngor Chwaraeon Cymru wedi nodi'r lefelau cyfranogi canlynol o ran *dawns* ym maes Addysg Gorfforol, darpariaeth allgyrsiol a chlybiau:

**Disgyblion 11-16 oed**

- 12 % o fechgyn a 51% o ferched yn cymryd rhan mewn dawns mewn gwersi Addysg Gorfforol
- 2% o fechgyn a 15% o ferched yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dawns allgyrsiol
- 2 % o fechgyn a 21% o ferched yn cymryd rhan mewn clybiau dawns
- Y galw cudd (y rhai sydd am gymryd rhan neu sydd am gymryd rhan yn amlach): 7% o fechgyn a 34% o ferched.

**Disgyblion 7-11 oed**

- 13% o fechgyn a 29% o ferched yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dawns allgyrsiol
- 3% o fechgyn a 31% o ferched yn cymryd rhan mewn clybiau dawns
- Y galw cudd (y rhai sydd am gymryd rhan neu sydd am gymryd rhan yn amlach): 8% o fechgyn a 52% o ferched.

## Genethod yn Gyntaf

Her ar gyfer ysgolion uwchradd i helpu i gynyddu'r lefel o ferched sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yw Genethod yn Gyntaf. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cynnig £1,000 i ysgolion uwchradd os gallant gynhyrchu cynigion creadigol i gyflwyno cyfleoedd newydd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ferched.

Mae enghreifftiau o brosiectau Genethod yn Gyntaf yn cynnwys ariannu'r band dawns pop merched Dragon Heart i hyrwyddo dosbarthiadau dawns allgyrsiol i ferched mewn ysgolion yn ardal Caerffili. Yn yr un modd, defnyddiwyd cyllid Genethod yn Gyntaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gynorthwyo dull cydgysylltiedig o ddatblygu dawns ym mhob ysgol a arweiniodd at ŵyl flynyddol lwyddiannus o berfformio a chyfranogi. Mae hon yn ŵyl barhaus.

## Cynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (PESS) ym mis Mehefin 2001 a gofynnodd i Gyngor Chwaraeon Cymru weithredu'r fenter PESS. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, mae'r Cynulliad yn ariannu 45 o Ganolfannau Datblygu PESS ledled Cymru ar hyn o bryd. Clwstwr o bedwar sefydliad addysg o leiaf yw Canolfan Ddatblygu, ac mae'n rhaid i o leiaf tri ohonynt fod yn ysgolion.

Prif ddiben y Canolfannau Datblygu yw nodi, atgyfnerthu a datblygu arfer da ym maes addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Ar gyfer dawns, mae'r rhaglen PESS yn cynnig prosiectau dawns sy'n canolbwyntio ar y disgyblion neu raglenni datblygiad proffesiynol i athrawon.

Datblygwyd mentrau dawns llwyddiannus gan gydgysylltwyr PESS sy'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill fel sefydliadau dawns cymunedol lleol, Dawns Gymuned Cymru a cholegau Addysg Bellach.

## Cymwysterau TGAU a Safon Uwch

Mae nifer y disgyblion sy'n anelu at gymhwyster dawns  ffurfiol yn isel. Dengys Tabl 1 nifer y disgyblion a dderbyniwyd i wneud cymhwyster dawns yng Nghymru o 2001 i 2004. Mae'r ffigurau yn cynnwys disgyblion o bob oed mewn ysgolion yng Nghymru. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys disgyblion o Golegau Addysg Bellach.

**Tabl 1:**
**Nifer y disgyblion sy'n gwneud cymhwyster dawns mewn ysgolion yng Nghymru**

| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 |
|---|---|---|---|---|
| TGAU | 96 | 152 | 13 | 0 |
| Uwch Atodol/Gyfrannol | 6 | 13 | 12 | 10 |
| Safon Uwch | 13 | 11 | 10 | 8 |

Ffynhonnell: Cyfarwyddiaeth Ystadegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cymwysterau celfyddydau mynegiannol

Er nad oedd unrhyw ddisgyblion ysgol yn dilyn cwrs mewn dawns ar lefel TGAU yn 2004, mae nifer y disgyblion sy'n astudio'r Celfyddydau Mynegiannol ar lefel TGAU wedi cynyddu'n sylweddol bob blwyddyn rhwng 2001 a 2004.

## CBAC

Nid yw CBAC yn cynnig safon uwch mewn dawns. Caiff dawns ei gynnwys o fewn maes llafur Addysg Gorfforol. Mae hyn yn cynnwys chwaraeon, dawns, gweithgareddau antur a gweithgareddau ymarfer corff. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddewis dau o'r pedwar gweithgaredd hyn.

## AQA

Mae AQA yn cynnig Safon UG a Safon Uwch mewn Dawns a gaiff eu hachredu yng Nghymru. Mae'r cwrs yn cynnwys:

- unigol: recordio a dadansoddi coreograffi a pherfformiad
- deall dawns
- coreograffi grŵp
- perfformiad
- gwerthfawrogiad: cynnwys a chyd-destun.

### Edexcel

Cafodd Safon UG a Safon Uwch Edexcel yn y celfyddydau perfformio ei achredu gan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm yn ddiweddar. Gall y cwrs gynnwys marchnata a gweinyddu'r celfyddydau, dawns, dylunio, drama, cerddoriaeth, technoleg cerddoriaeth neu agweddau technegol a chynhyrchu ar berfformio.

Yn ogystal, mae maes llafur Addysg Gorfforol Safon Uwch Edexcel yn caniatáu i ddawns gael ei gynnwys fel un o'i weithgareddau corfforol.

### Rhydychen Caergrawnt ac RSA (OCR)

Mae OCR yn cynnig astudiaethau perfformio Safon Uwch. Nod y cwrs hwn yw cadarnhau ymagwedd tuag at y celfyddydau perfformio sy'n amlddisgyblaethol ac sy'n datblygu rhinweddau fel dychymyg, sensitifrwydd a gwybodaeth a dealltwriaeth artistig. Mae'r cwrs hwn yn helpu ymgeiswyr i fabwysiadu sgiliau, dadansoddi'r rhestr ym mhob un o'r celfyddydau eraill, fel Dawns, Drama a Cherddoriaeth, a'r dulliau o astudio perfformiad sy'n eu huno.

Bydd OCR hefyd yn cynnig Safon UG yn y celfyddydau perfformio o 2005/06 a Safon Uwch yn y celfyddydau perfformio o 2005/06, sy'n cynnwys dawns fel un o'r disgyblaethau perfformio.

O ran Safon UG a Safon Uwch OCR mewn Addysg Gorfforol, bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddilyn lleiafswm o ddau weithgaredd allan o ddeg, ac un ohonynt yw dawns.

### Addysg Bellach

Ar ôl 16 oed, dim ond ychydig iawn o ysgolion sy'n cynnig cyrsiau Safon Uwch ac A2 yn y celfyddydau perfformio/dawns. Mae'r cyrsiau hyn yn fwy cyffredin mewn colegau addysg bellach, ac mae llawer ohonynt hefyd yn cynnig cyrsiau Diploma a Thystysgrif Genedlaethol BTEC. Mewn Addysg Bellach, caiff dawns ei gynnwys o dan y celfyddydau perfformio ac ar ôl 16 oed mae'n bosibl gwneud BTEC yn y Celfyddydau Perfformio gan ganolbwyntio ar Ddawns. Mewn gwirionedd, mae yna nifer o gyrsiau dawns BTEC a Diploma llwyddiannus iawn yng Nghymru. Mae maint y gwaith ymarferol yn amrywio o un coleg i'r llall ac mae llawer yn cynnwys dawns Safon Uwch. Yn dilyn y cyrsiau hyn, gall myfyrwyr fynd

ymlaen i astudio ar gyfer gradd mewn Dawns a bydd rhai yn dechrau mewn ysgolion galwedigaethol ar gyfer dawns gyfoes fel y Northern School of Contemporary Dance.

## Addysg Uwch

Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yw'r sefydliad addysg uwch cyntaf yng Nghymru i gynnig hyfforddiant dawns ar lefel gradd. Dechreuodd y cwrs gradd mewn dawns ym mis Medi 2003 i alluogi graddedigion i fynd ymlaen i amrywiaeth o swyddi sy'n gysylltiedig â dawns fel addysgu yn y sector a gynhelir neu hyfforddi i fod yn dawnswyr cymunedol.

Y rhif targed ar gyfer pob carfan yw 25. Roedd gan y cwrs gradd mewn dawns wyth myfyriwr yn ei flwyddyn gyntaf, 20 yn yr ail flwyddyn a chafodd dros 70 o geisiadau ar gyfer 2005/06.

Yn y gorffennol, mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi ystyried cynnal cwrs hyfforddi dawns galwedigaethol, ond nid yw'n cynnal cwrs o'r fath ar hyn o bryd. Mewn gwirionedd, ni chynigir unrhyw gwrs hyfforddi dawns galwedigaethol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn astudio dawns a symudiad ond nid i safon dawnsiwr proffesiynol.

Ar hyn o bryd, cynhelir pob cwrs galwedigaethol mewn dawns y tu allan i Gymru, er enghraifft The Place yn Llundain, The Northern College of Contemporary Dance, Prifysgol Middlesex, Central School of Ballet a'r Laban Conservatoire yn Llundain.

## Cyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion a Hyfforddiant Athrawon

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mai ychydig iawn o amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer addysgu dawns yn y cyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion a hyfforddiant athrawon felly dim ond ychydig o sgiliau addysgu/arwain dawns, os o gwbl, sydd gan Athrawon Newydd Gymhwyso.

Nododd 69% o'r athrawon a oedd yn gysylltiedig â'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion mai dawns oedd y pwnc roeddent yn teimlo fel bod angen y fwyaf o help arnynt. Mae'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion yn amlygu'r angen i ddatblygu

gwedd broffesiynol ym maes dawns mewn addysg er budd plant mewn ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol.

Drwy'r fenter hon, gwnaed gwaith gyda sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon i ddatblygu canlyniadau safonau gofynnol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon. Ar hyn o bryd, mae nifer yr oriau o hyfforddiant a gaiff athrawon ym maes dawns yn amrywio o un i ddwy awr i 30 awr neu yn achos UWIC, cynigir gradd lawn mewn dawns. Creda Cyngor Chwaraeon Cymru nad nifer yr oriau a gaiff eu neilltuo ar gyfer dawns sydd angen bod yn gyson mewn hyfforddiant athrawon ond bodloni'r safonau gofynnol.

Drwy'r arolwg prosiect Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, dangoswyd nad yw dros 43% o athrawon, yn arbennig athrawon benywaidd, yn hyderus i addysgu dawns mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a nodwyd nad oes gan lawer o athrawon gwrywaidd lawer o ddiddordeb mewn dawns o gwbl. Yn ogystal, mae bron 58% o athrawon wedi dangos diddordeb mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach mewn dawns. Dyma'r lefel uchaf o alw o'r holl weithgareddau addysg gorfforol.

Ffynonellau eraill o ran hyfforddiant dawns ffurfiol:

### Hyfforddi Prentisiaid

Mae'r cwmnïau Dawns Diversions a Dawns Annibynnol Cymru yn cefnogi'r sector dawns annibynnol drwy gynnig hyfforddiant datblygu proffesiynol safon uwch.

Mae Rubicon wedi cyflwyno cynllun prentisiaeth am ei fod wedi'i chael hi'n anodd iawn recriwtio dawnswyr sydd wedi cael hyfforddiant addas fel arweinwyr dawns cymunedol.

### Dyfarniadau i Arweinwyr Dawns

Mae yna nifer gynyddol o ddyfarniadau i arweinwyr dawns, ac fe'u cynigir yn arbennig drwy'r rhaglen Arweinyddiaeth Gymunedol Ymddiriedolaeth Chwaraeon Prydain a Dawns Gymuned Cymru. Mae'r math hwn o hyfforddiant arweinyddiaeth yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gweithio

gyda disgyblion hŷn yn ystod cyfnod allweddol 4 a darpariaeth Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Mae Dawns Gymuned Cymru wedi datblygu cwrs cymunedol rhagarweiniol, 'Arweinwyr mewn Dawns' ar lefel OCN ond mae cyflwyno'r cyrsiau yn dibynnu ar ddod o hyd i bartneriaethau ariannu lleol. Erbyn hyn, mae Dawns Gymuned Cymru am ymchwilio i a datblygu'r ail lefel o Arweinwyr mewn Dawns i gynnig llwybrau cynnydd ar gyfer arweinwyr dawns newydd.

Mae Gild Laban yn cynnal cwrs ar gyfer Arweinwyr Dawns ar lefel 3 OCN gyda Dawns Powys. Cynhelir y rhain am gyfnod o benwythnos bob mis.

### Hyfforddiant mewn Bale

Bydd y dawnswyr bale mwyaf talentog yn aml yn cael eu hyfforddi o oed ifanc yn y Coleg Bale Brenhinol a cholegau tebyg.

### Cwmnïau Dawns Cyfoes a Dawnswyr Annibynnol

Yn aml, daw dawnswyr cwmnïau Dawns Gyfoes o ganolfannau fel y Northern School of Contemporary Dance neu'r London School of Contemporary Dance. Yn aml, bydd dawnswyr annibynnol wedi dilyn cyrsiau gradd mewn dawns o leoedd fel Conservatoire Laban yn Llundain, Prifysgol Coventry a Middlesex.

### Ysgolion Dawns i Ddawnswyr Proffesiynol

Yn y cylch proffesiynol, mae cyrsiau dawns yn ddrud. Yr ysgolion agosaf ar gyfer dawnswyr proffesiynol yng Nghymru yw Hammond school yng Nghaerllion (hyfforddiant galwedigaethol uwchradd preifat), a'r 344 Dance Centre ym Mryste, mewn cysylltiad â Choleg Filton, sy'n darparu hyfforddiant galwedigaethol ac sy'n hyfforddi athrawon (dawns) hyd at Lefel 4.

# ATODIAD CH

## YR ADOLYGIAD A'R CYLCH GORCHWYL

Ar 30 Mehefin 2004, cytunodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon gynnal adolygiad dawns. Y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad oedd:

*Cynnal archwiliad o ddawns yng Nghymru er mwyn penderfynu ar:*

- *lefelau'r cyfranogiad a'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr amryfal sectorau (gan gynnwys y sector addysg) a mathau o ddawns;*
- *lefel y gefnogaeth a geir i ddawns;*
- *faint o gyfarwyddyd strategol a geir;*
- *y camau yr argymellir i'r Llywodraeth a charfanau perthnasol eraill eu cymryd yn y dyfodol.*

Dechreuodd yr adolygiad ym mis Tachwedd 2004 gydag ymgynghoriad ysgrifenedig. Cynhaliodd y Pwyllgor saith sesiwn tystiolaeth llafar hefyd rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2005.

At ei gilydd, cafodd yr adolygiad ei lywio gan 34 o sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth naill ai'n uniongyrchol i'r Pwyllgor neu'n ysgrifenedig. Cynghorwyd y Pwyllgor ymhellach gan grŵp cyfeirio o gynrychiolwyr o'r sector dawns: o ddawns gymunedol, cwmnïau perfformio, awdurdodau lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru, sef:

*Gillian Dale - Dawns Gymuned Cymru*

*Margaret Ames - Dawns Dyfed*

*Roy Campbell - Moore - Diversions*

*Jessica Cohen - Earthfall*

*Val Hill - Hijinx*

*Darius Williams - Bale Annibynnol Cymru*

*Kiran Ratna - India Dance Wales*

*Julie Meehan - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*

*Ruth Till - Rubicon*

*Siri Widgel - Cyngor Celfyddydau Cymru*

Cyfarfu'r grŵp cyfeirio ddwywaith gyda'r Pwyllgor, ym mis Tachwedd 2004 a mis Mai 2005.

## ATODIAD D

# CYFRANWYR I'R ADOLYGIAD

*Gellir dod o hyd i gyflwyniadau llafar yng nghofnodion pob cyfarfod o dan "Agendâu, Papurau a Thrawsgrifiadau" yn: http://www.wales.gov.uk/keypubassemcultwelsport/index-w.htm*

### 26 Ionawr, 2005

**Cyngor Celfyddydau Cymru** - Peter Tyndall, Prif Weithredwr
CWLS2 01-05 (p1)

### 23 Chwefror, 2005

**Dawns Gymuned Cymru** - Gillian Dale
CWLS 02-05 (p1)

**Dawns Gogledd-ddwyrain Cymru** - Sam Wyse ac Alan Edwards
CWLS 02-05 (p2)

**Dawns TAN Abertawe** - Carol Brown
CWLS 02-05 (p3)

**Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf** - Julie Evans
CWLS 02-05 (p4)

**Dawns Powys** - Jen Angharad
CWLS 02-05 (p5)

### 16 Mawrth 2005

**Cyngor Chwaraeon Cymru** - Huw Jones, Alison Hanbury
CWLS 03-05 (p1)

**Cyfadran Chwaraeon, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd** - Geraldine Hurl
CWLS 03-05 (p2)

**Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru/Cyd-bwyllgor Addysg Cymru** - Pauline Crossley
CWLS 03-05 (p3)

**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru** - Melinda Drowley
CWLS 03-05 (p4)

**Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth** (cynrychiolydd yn methu mynychu, papurau wedi'u cyflwyno)
CWLS 03-05 (p5)

### 27 Ebrill 2005

**Diversions** - Roy Campbell-Moore
CWLS(2) 05-05 (p1)

**Earthfall** - Jessica Cohen
CWLS(2) 05-05 (p2)

**Bale Annibynnol Cymru** - Darius Williams
CWLS(2) 05-05 (p3)

**India Dance Wales** - Kiran Ratna
CWLS(2) 05-05 (p4)

**Ballet Russe** - Charlotte Leadbeater, Irene Gogoladze
CWLS(2) 05-05 (p5)

### 18 Mai 2005

**Canolfan Gelfyddydau Taliesin** - Sybil Crouch
CWLS(2) 06-05 (p1)

**Cymdeithas Ddawns Werin Cymru** - Dr Prydwen Elfed-Owens
CWLS(2) 06-05 (p2)

**Dawns Rubicon** - Ruth Till
CWLS(2) 06-05 (p3)

### 15 Mehefin 2005

**Creu Cymru** - Richard Hoggar
CWLS(2) 07-05 (p1)

### 6 Gorffennaf 2005

**Cyngor Celfyddydau Cymru** - Peter Tyndall
CWLS(2) 08-05 (p4)

## TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG YCHWANEGOL O'R YMGYNGHORIAD

*Gellir dod o hyd i gyflwyniadau ysgrifenedig yng ngwefan y Cynulliad o dan "Policy Reviews". Cliciwch ar "Dance in Wales" ac yna "Submissions to Committee", neu ewch i: http://www.wales.gov.uk/keypubassemcultwelsport/content/dance-subs-e.htm*

- **Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf**
- **Ysgol Haberdashers i Ferched, Trefynwy**
- **Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru**
- **Canolfan Gelfyddydau'r Chapter**
- **Coleg Glan Hafren**
- **Dawns Annibynnol Cymru**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
- **Equity**
- **Dawns Dyfed**
- **Hyfforddiant Celfyddydau Cymru**
- **John Roberts**
- **Theatr y Sherman**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
- **Canolfan Gelfyddydau The Gate**
- **Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**
- **Dawns Rubicon**
- **Bale Annibynnol Cymru**
- **Cyngor Chwaraeon Cymru**
- **Canolfan Gelfyddydau Taliesin**
- **Earthfall**
- **Cymdethas Ddawns Werin Cymru**